# Cofnodion cyfarfod rhif 85
# Pwyllgor Cynghori Cymru
# a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams/rhai wyneb yn wyneb ar 23 Mehefin 2022

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Hywel Wiliam | Y Cadeirydd |
| Robert Andrews | Aelod |
| Aled Eirug | Aelod |
| Tom Crick | Aelod |
| Angharad Evans | Aelod |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Ruth McElroy | Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys |
| Sian Phipps | Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau |
| Eleanor Marks | Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru |
| Elinor Williams | Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| David Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 85 Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC). | |
| **2. Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar**<br><br>Dim | |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2022 a materion a godwyd**<br><br>Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2022 wedi cael eu dosbarthu i'r Aelodau ymlaen llaw. **CYMERADWYWYD** y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod heb ddiwygiadau.<br><br>**Materion a godwyd/Camau gweithredu heb eu cyflawni -** | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| • Ymweliad â Sgwâr Canolog y BBC – nodwyd bod y BBC wedi agor ei ddrysau i deithiau o amgylch yr adeilad yn ogystal ag ymweliadau, ac y byddai hyn yn cael ei drefnu ar gyfer yr Hydref.<br>• Adroddiad Newyddion Rhwydwaith - Nododd yr aelodau y sesiwn gyda'r Athro Stephen Cushion ar ymchwil a gomisiynwyd gan Ofcom i adrodd ar faterion datganoledig yn ymwneud â newyddion rhwydwaith y DU: Nodwyd y byddai un o'r Uwch Gyfarwyddwyr o dîm Safonau Ofcom yn mynychu cyfarfod nesaf PCC ym mis Medi. | |
| **Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**<br>4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys mynd i'r canlynol:<br>• **Cyfarfod Hyb Defnyddwyr Cyfathrebiadau Cymru:** Mae telegyfathrebiadau a band eang yn cael eu hystyried yn wasanaethau hanfodol ac o ystyried yr argyfwng economaidd presennol, dylid gwneud mwy i hyrwyddo bodolaeth tariffau cymdeithasol.<br>• **Strategaeth Symudol/Trafodaeth sbectrwm gyda PCC:** Edrych ar y materion polisi sy'n datblygu, fel y galw am ddata. Mae darpariaeth yng Nghymru yn parhau i fod yn fater allweddol ac mae'r dechnoleg 5G newydd sy'n cael ei chyflwyno yn dal i fod yn seiliedig i raddau helaeth ar graidd 4G. Bydd Ofcom yn cynnal digwyddiad i drafod darpariaeth symudol yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ar 19 Gorffennaf.<br>• **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith -** Senedd Cymru: 'Cysylltedd Digidol yng Nghymru, Polisïau Band Eang a Mynediad at Fand Eang.' Cyflwynodd PCC bapur cyn y gwrandawiad. Cymerais ran yn y Sesiwn Dystiolaeth ar 11 Mai ynghyd â Sian Phipps a Rhian Connick (WI).<br>• **Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau:** Digwyddiad rhwydweithio yn swyddfa Ofcom yng Nghaerdydd.<br>• **Cyfarfod o Aelodau Panel Cenedlaethol y a Chadeiryddion Pwyllgorau Cynghori:** canolbwyntio ar fforddiadwyedd a dyled yn y sector cyfathrebu. Codais y mater o weledd yn ymwneud â thariffau cymdeithasol. | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf: Aelod Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom**<br>5. Roedd Aelod Cymru o'r Bwrdd Cynnwys eisoes wedi dosbarthu papur diweddaru. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:<br>• Mae'r BBC wedi cyhoeddi newidiadau i lywodraethu ei weithgareddau masnachol sydd wedi'u dylunio i gryfhau ei arbenigedd masnachol, ariannol a digidol. Bydd gan Fwrdd Masnachol y BBC sy'n cael ei ailenwi (o'r Bwrdd Daliadau Masnachol) fwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol dan arweiniad Syr Damon Buffini. Roedd Ofcom yn croesawu'r newidiadau hyn ac yn eu hystyried yn debycach i ganllawiau Ofcom ar reoleiddio gweithgareddau masnachol ar wahân.<br>• Y Bil Hysbysebu ac Iechyd a Gofal – mae'r Bil Iechyd a Gofal yn mynd i roi dyletswyddau newydd i Ofcom orfodi cyfyngiadau ar hysbysebu cynnyrch bwyd a diod sy'n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr ("HFSS") – sydd bellach yng nghamau olaf y broses seneddol.<br>• Bil Diogelwch Ar-lein - Nod Ofcom yw bod yn barod i ymgynghori ar brif elfennau'r drefn reoleiddio newydd erbyn diwedd 2022. Ar hyn o bryd, mae'n paratoi cynllun | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| ymgysylltu â chwmnïau allweddol sydd o fewn cwmpas rheoleiddio er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chyfathrebu da. | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau**<br><br>6. Roedd Aelod Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddaru ar weithgareddau'r Panel ers y cyfarfod diwethaf. Roedd y prif uchafbwyntiau a grybwyllwyd yn ystod y cyfarfod yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Tystiolaeth ar gysylltedd digidol yng Nghymru i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, gan dynnu sylw at bryderon y Panel ynghylch symud i VoIP a pha mor bwysig yw hi i bob defnyddiwr yng Nghymru gael gafael ar wasanaethau cyfathrebu fforddiadwy a dibynadwy<br>• Y Panel yn parhau i bwysleisio i Ofcom a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon bod angen rheoli'r newid i ddigidol yn ofalus er mwyn diogelu defnyddwyr drwy godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau sydd ar ddod.<br>• Hyb Cymru – sy'n canolbwyntio ar gefnogi defnyddwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt gan eu darparwr cyfathrebiadau a sut gallai darparwyr cyfathrebiadau wella'r ffordd maent yn bodloni gofynion defnyddwyr drwy gydol taith y cwsmer.<br>• Rhaglen ymchwil a gwybodaeth y Panel<br>• Ymateb y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a Phwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl i gynigion Ofcom i ddiwygio ei ganllaw Trin Cwsmeriaid sy'n Agored i Niwed yn Deg – Mai 2022 | |
| **Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**<br><br>7. Nododd yr aelodau gynnwys papur diweddaru a rannwyd yn flaenorol ac a oedd yn ymdrin â phynciau'n cynnwys:<br><br>• Mae Ogi, sy'n ddarparwr band eang, wedi cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd wrth iddo ddathlu blwyddyn gyntaf ei ymdrech i gyflwyno rhwydwaith band eang sy'n gallu delio â gigabits ledled De Cymru.<br>• Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Sgrin Cymru yng Nghaerdydd ar 15-16 Mehefin gyda chyfranogwyr o'r sector cynhyrchu a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.<br>• Ymatebodd S4C i bapur gwyn 'Up next' Llywodraeth y DU oedd yn ymwneud â dyfodol y sector darlledu. Roedd yn nodi y byddai'r cynigion yn ei gwneud hi'n haws i wylwyr ddod o hyd i'w rhaglenni ar-alw. Mae S4C wedi cyhoeddi y bydd gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol yn rhan sylweddol o'i strategaeth newydd.<br>• Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Sut i Ddelio â Chynnwys Anghyfreithlon gyda Heddlu De Cymru<br>• Cyfarfod Bwrdd Crwn ar Symud i VOIP gydag Ofcom, Openreach, TEC Cymru, Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol | |
| **Yr wybodaeth ddiweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom – ar lafar**<br><br>8. Roedd Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom wedi anfon ei ymddiheuriadau, ond wedi rhoi nodyn i'r Cadeirydd ymlaen llaw. Roedd materion a godwyd yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Nid yw Adolygiad Canol Tymor y BBC yn cynnwys unrhyw wybodaeth am sut mae cynulleidfaoedd yn gwylio neu'n defnyddio cynnwys y BBC. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| • Yr angen i gadw llygad barcud ar y Post Brenhinol cyn i weithwyr post bleidleisio ar weithredu diwydiannol<br>• Mae gan BDUK rôl gynyddol bwysig o ran cyflawni Prosiect Gigabit<br>• Mae'n bwysig bod Ofcom yn parhau i reoleiddio'r BBC o ran ei dryloywder<br><br>Nododd Aelod o'r Pwyllgor bwysigrwydd cael adroddiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod. | |
| **9. Trafodaeth - Cyfryngau'r Genedl 2022**<br><br>**Sylwadau agoriadol**<br><br>Rhoddodd y tîm drosolwg o Adroddiad Cyfryngau'r Genedl Cymru, gan egluro eu bod wedi gwneud newidiadau i strwythur yr Adroddiad eleni er mwyn ei gadw'n gryno ac er mwyn iddo fod yn fwy cydnaws ag Adroddiad y DU. Erbyn hyn, bydd tair pennod 1) gwasanaethau teledu a dyfeisiau 2) agweddau cynulleidfaoedd at y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a 3) radio a sain. Roedd y dyddiad cyhoeddi yn dal i gael ei drafod.<br><br>Pwysleisiodd Aelodau'r Pwyllgor bwysigrwydd y ddogfen i randdeiliaid yng Nghymru a gofynnodd a ellid ei lansio ddechrau mis Awst yn ystod wythnos yr Eisteddfod fel y bu'n draddodiadol. Yn ôl Aelodau'r Pwyllgor, roedd y fantais o gyhoeddi'r Adroddiad bryd hynny'n golygu y gallai ddenu mwy o sylw yn y cyfryngau a sicrhau mwy o effaith.<br><br>Trafododd Aelodau'r Pwyllgor hefyd y gwahanol fethodolegau a ddefnyddiwyd i gasglu data a llunio'r Adroddiad. | |
| **10. Y wybodaeth ddiweddaraf – Polisi Cyhoeddus**<br><br>Rhoddodd cydweithwyr y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth berthnasol, gan egluro bod y Bil Diogelwch Ar-lein wedi cyrraedd Cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi ein 'Map' ein hunain yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i roi'r Bil ar waith yn ystod y 100 diwrnod cyntaf ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael Cydsyniad Brenhinol.<br><br>Rydym yn disgwyl i'r Bil Cyfryngau gael ei gyflwyno yn y sesiwn hon. Trafododd yr aelodau faterion yn ymwneud ag amlygrwydd a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r rôl yr oedd gan gwotâu i'w chwarae i wylwyr yng Nghymru.<br><br>Dywedodd cydweithwyr wrth Aelodau'r Pwyllgor y bydd Ofcom yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau ar y BBC cyn bo hir. Trafododd yr aelodau broses Gwynion BBC yn Gyntaf. | |
| **11. Trafodaeth - Cais am fewnbwn: Amrywiaeth ym maes Darlledu**<br><br>Eglurodd cydweithwyr wrth Aelodau'r Pwyllgor y bydd Ofcom yn cyhoeddi Adolygiad o Amrywiaeth ym maes Darlledu yn yr hydref, rhywbeth mae Ofcom yn ei wneud bob pum mlynedd. Er mwyn cyfrannu at yr Adolygiad, cadarnhaodd y tîm ei fod yn galw am dystiolaeth gan y Darlledwyr ac mae'n gobeithio casglu amrywiaeth eang o ddata.<br><br>Trafododd Aelodau'r Pwyllgor argaeledd data ar sail Cymru, a sut byddai'r tîm yn casglu data gan y Darlledwyr eu hunain. Cadarnhaodd y tîm fod y data'n cael ei ddarparu'n wirfoddol. Trafododd yr aelodau a fyddai dangosyddion economaidd-gymdeithasol yn cael eu cynnwys fel metrig yn yr Adolygiad. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| | |
| **12. Sian Doyle, Prif Weithredwr, S4C**<br><br>**Gweledigaeth ar gyfer S4C**<br><br>• Amser cyffrous i S4C wrth iddi nesáu at ei phen-blwydd yn 40 oed ym mis Tachwedd<br>• Prif flaenoriaeth S4C yw deall ei chynulleidfa a'i hanghenion, creu'r cynnwys iawn a dosbarthu ar y llwyfan cywir<br>• Mae'n bwysig chwalu'r rhwystrau y mae'r gynulleidfa'n teimlo nad yw eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da i ddefnyddio cynnwys S4C. Rhaid i'r sianel fod yn berthnasol i bob cynulleidfa yng Nghymru.<br>• Mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys gweithio gyda'r Urdd i ddarlledu'r Eisteddfod ar draws sawl llwyfan, a sicrhau'r hawliau i gemau rhagbrofol Cymru yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd Pêl-droed. Mae S4C hefyd yn gweithio gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar greu canolfan ddigidol yng Nghaerfyrddin i ddatblygu gweithlu mwy medrus.<br>• Bydd y setliad ariannol o Ffi'r Drwydded yn helpu S4C i ddatblygu ei darpariaeth ddigidol.<br>• Mae'r Bil Cyfryngau yn cyflwyno nifer o gyfleoedd i S4C, gan gynnwys ei pherthynas â'r BBC. Mae amlygrwydd ar deledu clyfar yn dal yn fater pwysig.<br>• Mae nifer o gyd-gynyrchiadau ar y gweill ar hyn o bryd, a fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r iaith ac yn cael cynulleidfaoedd i feddwl am S4C mewn ffordd wahanol. Mae'r rhain yn cynnwys y ddrama Y Golau (The Light In The Hall), gyda Duches Productions/Channel 4/ lle dysgodd y brif actores, Joanna Scanlon, y Gymraeg ar gyfer ei rôl; ac Un Nos Ola Leuad (Un Moonlit Night), fersiwn opera o nofel Caradog Pritchard a fydd yn cael ei darlledu ar yr un pryd ar Channel 4 ac S4C yn Gymraeg. | |
| **13.** Trafodaeth Aelodau'r Pwyllgor: Adolygiad Canol Tymor y BBC: Cylch Gorchwyl<br><br>Trafododd yr aelodau eu hymateb i Gylch Gorchwyl Adolygiad Canol Tymor y BBC, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:<br>• Effaith yr Adolygiad ar gynulleidfaoedd yng Nghymru<br>• Tryloywder a hyblygrwydd o ran cwotâu ar lwyfannau llinol ac ar-lein, a gwybodaeth well am gwotâu unigol ar gyfer Cymru<br>• Cywirdeb newyddion rhwydwaith a materion datganoledig<br>• Effaith ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru, gan gynnwys canlyniadau preifateiddio Channel 4 ar y sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru<br>• Agweddau masnachol y BBC a'i reoleiddio<br><br>Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i gyflwyno ymateb ffurfiol i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Nodwyd bod swyddogion yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn awyddus i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys Pwyllgor Cynghori Cymru, i drafod materion sy'n ymwneud â chynulleidfaoedd yng Nghymru. Nodwyd ymhellach y byddai gan yr Adran dros Dechnoleg | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
| --- | --- |
| Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod Pwyllgor Cynghori Cymru ym mis Medi. | |
| **14. Ymateb i Ymgynghoriadau:**<br><br>*Mae'r canlynol yn gyhoeddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor: -*<br>• Ymgynghoriad: Trwydded Weithredu Newydd y BBC<br>• Cais am Fewnbwn – Pa gamau y gall llwyfannau ar-lein eu cymryd i liniaru niwed?<br>• Y broses drwyddedu: Channel 3 a Channel 5 Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 229 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 | |
| **Y wybodaeth ddiweddaraf am gwynion defnyddwyr**<br><br>**15. Nodwyd y cynnwys** | |
| **Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod**<br><br>16. Nodwyd y cynnwys | |
| **Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol**<br><br>**Unrhyw fater arall -**<br><br>**Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:**<br><br>Dydd Iau 13 Medi 2022 | |
| | |
| | |

______________________________ **Dyddiad**: ______________________

Cadeirydd

[remove for published minutes]